

Cyngor Dinas Bangor

Cylch Gorchwyl

Mabwysiadwyd gan y Cyngor ar 28 Mehefin 2021



Pwyllgor Asedau, Adnoddau a Phrosiectau: Cylch Gorchwyl a Chynllun Pwerau Dirprwyedig.¹

1. Amcanion y Pwyllgor

1.1 Mae'r Pwyllgor Asedau, Adnoddau a Phrosiectau yn gyfrifol am strategaeth gytunedig y Cyngor, cynlluniau gweithredu a phrosiectau penodol e.e. ceisiadau am gyllid ariannol i'r Pier; manau gwyrdd; adfywio'r Stryd Fawr; buddsoddi yn asedau'r Cyngor a rhoi strategaeth yn ei lle ar gyfer gwerthu rhai asedau. Pwyllgor gweithredol yw hwn, gyda phwerau i wneud penderfyniadau. Mae'r Pwyllgor yn gweithio ochr yn ochr â'r Pwyllgor Llywodraethiant, Staffio a Chyllid ar weithgareddau a digwyddiadau.

2. Cyfansoddiad ac Aelodaeth

2.1 Bydd cyfansoddiad, aelodaeth a chylch gorchwyl y Pwyllgor yn cael eu penderfynu gan y Cyngor Llawn.

2.2 Bydd y Pwyllgor yn cynnwys deg aelod o Gyngor y Ddinas (tri ohonynt yn gwneud cworwm), a'r Cyfarwyddwr Dinesig yn gweithredu fel Swyddog Ariannol Cyfrifol Cyngor y Ddinas. Dylai'r Pwyllgor gynnwys o leiaf un aelod o bob ward. Yn ychwanegol at hynny, bydd sedd *ex officio* ar gael i'r Maer ond heb hawliau pleidleisio. Gall aelodau eraill y Cyngor h.y. aelodau'r Pwyllgor Llywodraethiant, Staffio a Chyllid fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor a siarad ar eitemau arbennig ar yr agenda, ond ni fydd ganddynt hawliau pleidleisio. Pe bai unrhyw aelod yn gadael y Pwyllgor am unrhyw reswm yna gall y Pwyllgor enwebu aelod arall a bydd hyn yn cael ei gadarnhau yn y Cyngor Llawn.

2.3 Bydd y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd yn cael eu henwebu yng nghyfarfod cyntaf y Pwyllgor, yn dilyn Cyfarfod Blynyddol y Cyngor ym mis Mai. Yn unol â Rheol Sefydlog Cyngor Dinas Bangor Rhif 9, pe digwydd canlyniad cyfartal wrth ethol y Cadeirydd hwnnw a'r Dirprwy Gadeirydd (pan mae nifer cyfartal o bleidleisiau wedi'u bwrw i bob enwebai), dylid datrys y sefyllfa drwy dynnu allan o het. Caiff aelodau'r Pwyllgor, y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd eu cadarnhau yn y Cyngor Llawn.

2.4 Bydd y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd yn aros yn eu swydd am ddeuddeg mis, tan gyfarfod Pwyllgor cyntaf y flwyddyn ddinesig nesaf, pan fydd y Pwyllgor yn ethol neu'n ailethol Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd am y flwyddyn honno. Gall y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd ymgymryd â'r swyddi hyn am uchafswm o ddwy flynedd.

¹ Dylid darllen y ddogfen hon ochr yn ochr â Rheolau Sefydlog Cyngor Dinas Bangor –

2.5 Y Cyfarwyddwr Dinesig, yn rhinwedd ei swydd fel Swyddog Ariannol Cyfrifol Cyngor y Ddinas fydd yn gweithredu fel Ysgrifennydd i'r Pwyllgor.

3. Cyfarfodydd

3.1 Trefnir cyfarfodydd yn unol â rhestr cyfarfodydd blynyddol Cyngor y Ddinas, a gyhoeddir ar wefan y Cyngor. Y pwyllgor fydd yn penderfynu os a phryd yn y cyfamser, y gall fod angen sefydlu gweithgorau, is-bwyllgorau neu gyfarfodydd ychwanegol i drafod materion penodol.

3.2 Bydd cyfarfodydd y Pwyllgor yn parhau i gael eu cynnal o bell drwy ddefnyddio cyfleusterau fideo-gynadledda. Gall y Pwyllgor benderfynu adolygu hyn ac ystyried mynd yn ôl i gyfarfodydd wyneb yn wyneb yn Neuadd y Penrhyn yn y dyfodol.

4. Ymddygiad

4.1 Dylai ymddygiad yr aelodau mewn cyfarfodydd a'r tu allan iddynt, gweithdrefnau cyfarfodydd a hawliau pleidleisio fod yn unol â chyfarfodydd y Cyngor fel y'u llywodraethir gan Reolau Sefydlog y Cyngor a'r Safon Ymddygiad ².

5. Protocolau Pleidleisio a'r Cworwm

5.1 Bydd pob penderfyniad yn cael ei dderbyn gan fwyafrif pleidleisiau'r aelodau sy'n bresennol mewn cyfarfod.

5.2 Yn achos nifer cyfartal o bleidleisiau, bydd gan Gadeirydd y cyfarfod ail bleidlais neu bleidlais fwrw.

5.3 Fel arfer bydd pleidleisio ar unrhyw benderfyniad neu fusnes yn digwydd drwy godi dwylo. Mewn sefyllfaoedd anarferol, yn ôl barn y Cadeirydd neu fwyafrif yr aelodau, gellir cynnal pleidlais gudd (yn unol â Rheol Sefydlog Pwynt 47).

5.4 Ni ddylid trafod unrhyw fusnes mewn cyfarfod o'r Pwyllgor oni bod o leiaf dri aelod yn bresennol.

6. Cofnodion

6.1 Dylai enwau'r aelodau sy'n bresennol mewn cyfarfod gael eu nodi yn y cofnodion.

6.2 Dylai cofnodion trafodion cyfarfodydd gael eu paratoi gan yr Ysgrifennydd, eu rhoi mewn cofnod i'w gadw i'r diben hwnnw a'u cyflwyno i'w cymeradwyo o ran cywirdeb yn y cyfarfod nesaf. Dylai'r cofnodion, fel y'u cymeradwywyd, gael eu cytuno arnynt gan Gadeirydd y cyfarfod y'u cyflwynwyd ar eu cyfer, ac wedi cael eu llofnodi, dylid cymryd eu bod yn dystiolaeth bendant o'r ffeithiau a ddatganwyd ynddynt.

6.3 Gall y Pwyllgor benodi un neu fwy o is-Bwyllgorau yn cynnwys aelodau o'r Pwyllgor ac unigolion nad ydynt yn aelodau ohono, ond ni ddylid caniatáu hawliau pleidleisio i'r unigolion hynny ac ni ddylid eu hethol i fod yn llywydd ar y cyfryw is-Bwyllgor.

² [Standard-of-Conduct.pdf \(gov.wales\)](#)

7. Cylch gorchwyl

Caiff y Pwyllgor:

7.1 Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau ychwanegol fel y ceir eu dirprwyo gan y Cyngor Llawn yn cynnwys y grym i adolygu materion penodol a gwneud argymhellion angenrheidiol.

7.2 Cymeradwyo anfonebau i'w talu hyd at £40,000.

7.3 Goruchwylio cynllunio a gweithredu prosiectau'r Cyngor, fel y'u cyfarwyddir gan y Cyngor Llawn.

7.4 Paratoi a rhoi cynllun strategol ar waith, wedi'i ategu gan gynlluniau gweithredu penodol, ar gyfer asedau'r Cyngor.

7.5 Adolygu pob ased yn rheolaidd a rhoi cynllun ar waith i uchafu ei fudd i'r gymuned.

7.6 Asesu asedau'r Cyngor yn rheolaidd ac argymhell i'r Cyngor Llawn unrhyw gaffaeliadau sydd eu hangen i weithredu amcanion y Cyngor.

7.7 Adnabod a gwneud cais am gyllid allanol fel y bo angen i wireddu cynlluniau, nodau ac amcanion y Cyngor.

7.8 Mynd ati i chwilio am fuddsoddiad yn y ddinas, yn enwedig ar y Stryd Fawr.

7.9 Ffurio a gweithredu cynllun penodol i fannau gwyrdd y ddinas, gyda golwg ar gynnal a gwella llefydd cymunedol y ddinas.

7.10 Adnabod a gweithio gyda phartneriaid allanol i gyflawni cynlluniau, nodau ac amcanion y Ddinas.

7.11 Gwneud argymhellion i'r Cyngor Llawn ar brynu, cynnal a chadw neu waredu asedau'r Cyngor, goruchwylio ac adolygu cofrestr risg asedau'r Cyngor.

7.12 Cynnal a chadw, gwella a chyfoethogi asedau'r Cyngor.